

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Rhian Davies Steve Price Laura Offside Manon Jones Pauline Smith Judith Askew Pete Kennedy
Adran:	Y Gyfarwyddiaeth Addysg, EPS
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Claire Rowlands, Dirprwy Gyfarwyddwr y Cwricwlwm ac Asesu
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams
Dyddiad Dechrau:	25/07/2018

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?	9
Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg?.....	12
Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?.....	13
Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?	14
Adran 6. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn Gofynnol	16
Adran 7. Casgliad.....	17
Adran 8. Datganiad.....	20
Asesiadau Effaith Llawn.....	21
A. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	21
B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	29
C. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.....	45
D. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth	49

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Fel y nodwyd yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ddatblygu cwricwlwm a threfniadau asesu gweddnewidiol yng Nghymru er mwyn galluogi pobl ifanc i gyrraedd safonau llythrennedd a rhifedd uwch, dod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a datblygu'n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Mae tegwch a rhagoriaeth wrth wraidd y trefniadau newydd a byddant yn helpu i feithrin dinasyddion hyderus, galluog a gofalgarg.

Mae Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru (2015) yn nodi'r problemau ymarferol a sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol:

- Nid yw'r lefelau cyflawniad mor uchel ag y dylent fod (yn ôl tystiolaeth gan PISA ac Estyn);
- Adolygiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn 2014, a ddaeth i'r casgliad nad yw'r trefniadau asesu a gwerthuso presennol yn foddhaol o ran gwella perfformiad ymhlith cyfran uchel o bobl ifanc yng Nghymru;
- Diffyg parhad o fewn y system addysg ac wrth drosglwyddo rhwng camau;
- Profiad addysgol gwael i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3;
- Nid yw cwricwlwm a luniwyd yn 1988 yn adlewyrchu'r byd sydd ohoni a goblygiadau byd cyfnewidiol ar yr hyn y mae angen i bobl ifanc ei ddysgu a sut y mae angen iddynt ei ddysgu.

Mae'r materion hyn hefyd yn berthnasol i'r systemau rheolaeth ddeddfwriaethol ac atebolrwydd yr ystyrir eu bod wedi: lleihau rôl greadigol ysgolion wrth gyflwyno'r cwricwlwm; a chyfyngu ar hyblygrwydd ac ymatebolrwydd wrth ymdrin â materion sy'n dod i'r amlwg yn yr ardal leol ac yn y byd.

O ganlyniad, mae angen sicrhau bod gan Gymru gwricwlwm eang a chytbwys sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif, gan amlinellu pa wybodaeth y dylai dysgwyr feddu arni a pha sgiliau y dylent eu

meithrin. Un o argymhellion craidd Dyfodol Llwyddiannus yw gosod y pedwar diben sydd wrth wraidd ein system addysg bod plant a phobl ifanc yn datblygu fel:

- › dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- › cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- › dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- › unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Fel y nodwyd uchod, mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, yn nodi y dylid anelu at ddatblygu cwricwlwm a threfniadau asesu gweddnewidiol er mwyn galluogi pobl ifanc i gyrraedd safonau llythrennedd a rhifedd uwch, dod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a datblygu'n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol.

Er mwyn ategu hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i hwyluso'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer asesu dysgwyr a gwerthuso ysgolion. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n gweithredu fel ffactorau sy'n galluogi newidiadau mewn ymddygiad, diwylliant a threfniadau cyflwyno yn y system. Rhaid i'r trefniadau newydd roi'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol gyflwyno cynnwys a phrofiadau penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr a'u cyd-destunau penodol. Mae hefyd yn caniatáu i ymarferwyr arddel barn broffesiynol a chreadigrwydd er mwyn datblygu eu cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd cyflwyno'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd yn lle'r mesurau atebolrwydd cyfyngedig sy'n bodoli ar hyn o bryd yn ategu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Gall systemau atebolrwydd mentrus arwain at ganlyniadau negyddol sylweddol anfwriadol. Yn ogystal â'r straen y mae'r systemau hyn yn anochel yn ei roi ar ysgolion a'u disgyblion, gall diwylliannau o'r fath olygu na cheir cymaint o ffocws ar ddiwallu anghenion pobl ifanc fel unigolion. Yn seiliedig ar y dystiolaeth ryngwladol, bydd y system werthuso newydd yn rhoi blaenoriaeth i wella.

Hirdymor

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y 21^{ain} ganrif, ac er mwyn sicrhau bod addysg yn cyflawni ei blaenoriaethau ac yn diwallu anghenion busnesau a'r economi yn y dyfodol. Mae ffyniant, cydlyniant a llesiant cenedl yn seiliedig ar system addysg lwyddiannus.

Mae'r pedwar diben yn darparu'r man cychwyn ar gyfer yr holl addysgu a'r dysgu, gan ddarparu disgwyliadau i ddysgwyr feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r ymagwedd tuag at ddysgu a fydd yn sail ar gyfer yr hyn y bydd ei angen arnynt drwy gydol eu bywyd.

Mae argymhellion Dyfodol Llwyddiannus, y mae'r cynigion hyn yn seiliedig arnynt, yn annog nodi llai o fanylion mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y tymor hwy er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn addas at y diben, y gall esblygu ac y gellir ei werthuso.

Atal

Caiff anfantais, ar sawl ffurf, effaith ar gyflawniad addysgol plant a phobl ifanc. Mae'r cwricwlwm yn cynnig sail i addysg statudol a chaiff ei gynllunio mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb pob plentyn a pherson ifanc ac yn eu galluogi i gyflawni. Mae i hyn oblygiadau pwysig o ran eu datblygiad drwy eu bywyd fel oedolyn. Mae pedwar diben y cwricwlwm yn cyfrannu at ddymchwel cylchoedd negyddol lluosog drwy helpu plant a phobl ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranwyr mentrus, creadigol; dinasyddion egwyddorol, gwybodus; ac unigolion iach, hyderus pan fyddant yn gadael addysg statudol.

Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi nod Llywodraeth Cymru, sef creu ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a llesiant er mwyn helpu i ddatblygu a gweithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu gweddnewidiol. Cam gweithredu allweddol arall a nodwyd yn y strategaeth yw ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion, sef y Grant Amddifadedd Disgyblion gynt, gan adeiladu ar ei lwyddiant i leihau'r bwlch cyrhaeddiad a chwalu'r rhwystrau i ddysgu.

Bydd y Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles yn cynnwys pynciau a themâu sy'n ymwneud â lles meddwl, lles corfforol a lles emosiynol. Bydd pob MDPh yn y trefniadau newydd yn gyfartal, sy'n golygu y bydd iechyd meddwl a chefnogi lles yn elfennau allweddol o'r cwricwlwm. Er y bydd y cwricwlwm newydd yn allweddol, mae datblygu iechyd a lles cadarnhaol ymhlith dysgwyr yn fater

ehangach, ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ddull gweithredu ysgol gyfan - caiff hyn ei ystyried gan yr Ysgolion Arloesi fel rhan o'r broses o ddylunio'r cwricwlwm. Caiff hyn ei ategu gan y cynigion ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb statudol a fydd yn anelu at feithrin a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r dylanwadau a all effeithio arnynt, mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol, i'w helpu i ddatblygu cydberthnasau iach, llawn parch. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar helpu i atal canlyniadau negyddol o ganlyniad i gydberthnasau ac ymddygiadau negyddol.

Integreiddio

Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i ddylunio er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu cymaint â phosibl at y saith nod llesiant a amlinellwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a nodir isod:

Cymru lewyrchus	<ul style="list-style-type: none"> • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith' a bydd pob maes dysgu a phrofiad yn cyfrannu at y diben hwn. • Bydd y cwricwlwm yn cynnwys gyrfaoedd a'r byd gwaith ym mhob maes dysgu a phrofiad er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael cipolwg ar waith a gyrfaoedd - ac yn meithrin sgiliau cyflogadwyedd. • Dynodir llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y tri phwnc trawsgwricwlaidd gan sicrhau bod yr hanfodion ar waith.
Cymru gydnerth	<ul style="list-style-type: none"> • Gall y nodweddion sy'n sail i'r pedwar diben gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac ecoleg. O dan ddinasyddion egwyddorol a gwybodus: mae plant a phobl ifanc yn dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac yn cydnabod eu bod yn dibynnu ar hynny; ac yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau gweithredu. • Bydd hyblygrwydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn golygu y bydd yr addysgu yn gallu pwysleisio bioamrywiaeth ac ecoleg o fewn amgylcheddau lleol y dysgwyr (MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg), ond gan hefyd eu helpu i edrych ar y byd ehangach (MDPh y Dyniaethau).
Cymru iachach	<ul style="list-style-type: none"> • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' a bydd pob maes dysgu a phrofiad yn cyfrannu at y diben hwn.

	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Bil yn darparu ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb orfodol i ddisgyblion hyd at 16 oed. Y bwriad yw y bydd hyn yn codi proffil ac ansawdd y profiad dysgu yn y maes hwn ac yn sicrhau y rhoddir pwyslais priodol arno.
Cymru sy'n fwy cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes ' a bydd pob maes dysgu a phrofiad yn cyfrannu at y diben hwn. • Bydd y Bil yn diffinio Meysydd Dysgu a Phrofiad a gaiff eu hastudio hyd at 14 oed, gan sicrhau continwwm profiad drwy addysg orfodol a chan sicrhau y parheir i astudio amrywiaeth o bynciau. • Bydd y Bil yn disodli 'cyfnodau allweddol' gan gyflwyno 'Camau Cynnydd' a fydd yn darparu pwyntiau cyfeirio er mwyn profi cynnydd pob person ifanc wrth ddysgu.
Cymru o gymunedau cydlynus	<ul style="list-style-type: none"> • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' a bydd pob maes dysgu a phrofiad yn cyfrannu at y diben hwn. • Bydd addysg grefyddol yn rhan o faes dysgu a phrofiad y dyniaethau a bydd yn orfodol rhwng 3 ac 16 oed, gan alluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o amrywiaeth eang o ddiwylliannau a safbwyntiau athronyddol.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Bil yn cynnwys gofyniad sylfaenol o ran y Gymraeg (a'r Saesneg) i bob disgybl rhwng 5 ac 16 oed. • Bydd y cwricwlwm yn creu llwybr unigol ar gyfer y Gymraeg er mwyn annog newid sylweddol yn y ddarpariaeth drwy ddileu'r cysyniad o'r 'Gymraeg fel ail iaith'.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	<ul style="list-style-type: none"> • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd' a bydd pob maes dysgu a phrofiad yn cyfrannu at y diben hwn.

Mae ffyniant economaidd, cydlyniant cymdeithasol a llesiant y genedl yn seiliedig ar system addysg gref a llwyddiannus. Er mai nod y gwaith hwn yw helpu'n uniongyrchol i gyflwyno thema 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu' Ffyniant i Bawb (2017), ceir cyswllt penodol hefyd rhwng holl themâu allweddol y strategaeth genedlaethol (Ffyniannus a Diogel; Iach ac Egnïol; Uchelgeisiol ac yn

Dysgu; ac Unedig a Chysylltiedig) a phedwar diben y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r cynigion yn atgyfnerthu'r meysydd polisi niferus o fewn Llywodraeth Cymru a gweledigaeth y Llywodraeth bresennol i Gymru ac yn cyfrannu atynt.

Yn sail i'r gwaith hwn, mae'r gred na ddylai'r ardal y maent yn byw ynnddi na'u hincwm ddylanwadu ar allu unigolion i fanteisio ar addysg. Mae'r cwricwlwm hwn yn gwricwlwm i bob dysgwr ac mae'n canolbwyntio ar ddull gweithredu mwy personol o ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (2017) yn cyfrannu at y thema Uchelgeisiol ac yn Dysgu, ac mae 'Cwricwlwm Gweddnewidiol' wrth wraidd ei hamcanion galluogol.

Mae'r pedwar diben yn adlewyrchu pedwar amcan Llywodraeth Cymru yn fras, gyda'r cwricwlwm yn cyfrannu at sylfeini amcanion polisi eraill Llywodraeth Cymru:

- Ffyniannus a Diogel - Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- Iach ac Egnïol - Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Uchelgeisiol ac sy'n Dysgu - Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- Unedig a chysylltiedig - Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Cydweithio

Mae'r cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn yn effeithio ar fwy na dim ond ymarferwyr. Maent yn effeithio ar ddysgwyr, ysgolion a lleoliadau, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, Estyn a Cymwysterau Cymru.

Nododd Dyfodol Llwyddiannus (2015) y dylid ail-ddylunio'r cwricwlwm llawn a'r trefniadau asesu gan gynnwys ysgolion a rhanddeiliaid arbenigol fel rhan o'r broses. Bu prosesau cyd-gynhyrchu yn allweddol i ddatblygu'r trefniadau hyn, er enghraifft:

- Mae'r Model Ysgolion Arloesi gan weithio gyda'i ysgolion clwstwr a'i bartneriaid cefnogol wedi dod ag ymarferwyr, Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, Estyn a Cymwysterau Cymru ynghyd.
- Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu Rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm yn cynnwys partneriaid addysgol allweddol ar y prif grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau.

- Cynhwyswyd rhanddeiliaid ehangach ac arbenigwyr wrth ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ogystal â strwythur y cwricwlwm cyfan lle y mae ganddynt ddiddordebau neu wybodaeth arbenigol benodol.

Cynnwys

Mae'r broses o gyd-gynhyrchu'r trefniadau newydd wedi sicrhau bod y rhai a fydd yn gweithredu'r newid wedi bod yn rhan o'r gwaith o'r camau dylunio cyntaf. Mae'r pwyslais hwn ar gydweithio ar draws y system addysg er mwyn ategu'r pedwar diben (sy'n ategu'r saith nod llesiant cenedlaethol yn fras) yn ategu'r dull gweithredu a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rhoddir ystyriaeth bellach i safbwyntiau'r rhai y bydd y cynigion yn effeithio arnynt ym mis Ebrill 2019 pan gaiff y cwricwlwm a'r trefniadau asesu eu cyhoeddi er mwyn cael adborth arnynt.

Ychwanegir rhagor o wybodaeth yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn er mwyn cael sylwadau rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y cynigion hyn.

ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

2.1 Pobl a Chymunedau

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?

Dau o bedwar diben y cwricwlwm newydd, y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth, yw galluogi 'unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' a 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.' Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn cyfrannu at y diben hwn.

Datblygwyd y cwricwlwm gan ddefnyddio model cydgynhyrchu gyda rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion Arloesi (yn cynrychioli ysgolion gwledig, ysgolion trefol, ysgolion arbennig ac ysgolion â chyfryngau iaith gwahanol), partneriaid addysgol allweddol (gan gynnwys consortia, Estyn a Cymwysterau Cymru) ac amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr.

2.2 Hawliau Plant

Mae'n ofynnol i Weinidogion roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu unrhyw swyddogaethau. Atodir Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A.

2.3 Cydraddoldeb

Atodir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau yn Atodiad B.

2.4 Prawfesur Gwledig

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar unigolion a chymunedau gwledig?

Dyluniwyd y cwricwlwm er mwyn iddo fod yn gymwys i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith Ysgolion Arloesi yn cynnwys ysgolion o wahanol feintiau mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yr Haen Ganol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr.

Ceir dealltwriaeth well o effaith bosibl y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar leoliadau gwledig pan gaiff y cwricwlwm ei gyhoeddi er mwyn cael adborth arno ym mis Ebrill 2019.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd angen asesiad llawn o'r effaith ar Brawfesur Gwledig yn seiliedig ar y cynigion gan nad oes unrhyw newidiadau strwythurol i'r system addysg ac y bydd yr hyblygrwydd sy'n gysylltiedig â'r trefniadau newydd yn addas ar gyfer gwahanol ysgolion a lleoliadau. Caiff y mater hwn ei ystyried ymhellach pan gaiff y cwricwlwm ei gyhoeddi er mwyn cael adborth arno ym mis Ebrill 2019.

2.5 Iechyd

2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

Nododd Dyfodol Llwyddiannus bedwar diben addysg yng Nghymru, y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth - ac un o'r dibenion hynny yw helpu plant a phobl ifanc i ddod yn unigolion iach, hyderus. Mae'r pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd a dyma'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Yn ogystal, mae Iechyd a Lles yn un o chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh). Rhestrir y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn nhrefn yr wyddor yn Dyfodol Llwyddiannus er mwyn pwysleisio eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd fel rhan o gwricwlwm eang a chytbwys.

Bydd y Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles yn cynnwys pynciau a themâu sy'n ymwneud â lles meddwl, lles corfforol a lles emosiynol. Yn ogystal, fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, gofynnwyd i'r Ysgolion Arloesi ystyried sut mae amgylchedd yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol plant a phobl ifanc. Er y bydd y cwricwlwm newydd yn allweddol, mae datblygu iechyd a lles cadarnhaol ymhlith dysgwyr yn fater ehangach, ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar ddull gweithredu ysgol gyfan.

Mewn iechyd a lles, mae'r datganiadau Beth sy'n Bwysig fel trefnwyr y MDPH, yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i wneud y canlynol:

- Datblygu corff iach ac egnïol
- O ran eu hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol, drwy eu profiadau a sut maent yn ymateb iddynt
- Gwneud penderfyniadau iach a chadarnhaol
- Rhyngweithio'n gadarnhaol â'u hamgylcheddau
- Meithrin a chynnal cydberthnasau cadarnhaol.

Bydd y cynigion deddfwriaethol yn darparu ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol i ddisgyblion hyd at 16 oed. Y bwriad yw y bydd hyn yn codi proffil ac ansawdd y profiad dysgu yn y maes hwn.

2.5b. A allai fod effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?

Mae'r cynigion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc o oedran ysgol statudol.

Mae sybsidiaredd yn allweddol i'r cwricwlwm newydd. Caiff egwyddorion lefel uchel eu nodi yn y cwricwlwm a ddatblygir ar lefel genedlaethol er mwyn darparu man cychwyn ar gyfer gwaith cynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgolion. Mae hyn yn golygu y gall ymarferwyr ddewis cynnwys sy'n briodol ar gyfer anghenion eu dysgwyr.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Iechyd gan nad oes effeithiau gwahaniaethol ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc. Caiff y mater hwn ei ystyried ymhellach pan gaiff y cwricwlwm ei gyhoeddi er mwyn cael adborth arno ym mis Ebrill 2019.

2.6 Preifatrwydd

Nid oes angen cynnal asesiad o'r effaith ar breifatrwydd ar gyfer y cynigion hyn gan nad ydynt yn ymwneud â chasglu na defnyddio gwybodaeth bersonol.

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

3.1 Llesiant Diwylliannol

3.1a Sut y gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? (ar gyfer y Gymraeg, gweler adran 3.2)

Mae'r cwricwlwm newydd yn dileu'r gwahaniaeth presennol rhwng pynciau craidd a phynciau sylfaen ac yn rhoi yr un statws i bob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn cynnwys Meysydd Dysgu'r Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles a'r Dyniaethau. Bydd yn statudol i ddysgwyr barhau i astudio elfennau o bob Maes Dysgu a Phrofiad hyd at 16 oed.

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi y dylai pob Maes Dysgu a Phrofiad gynnwys dimensiwn Cymreig a safbwynt rhyngwladol, lle y bo'n briodol. Datblygwyd rhesymeg ac egwyddorion drafft ar gyfer cynnwys yr agweddau hyn ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac maent yn cyfeirio at gynnig y cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu hunaniaeth drwy ystyried cwestiynau sy'n ymwneud â diwylliant, iaith ac eiddo yn eu hardal leol ac yng Nghymru. Mae'n rhoi dealltwriaeth iddynt o'r hanesion, y diwylliannau, y gwerthoedd a'r dreftadaeth amrywiol sy'n gysylltiedig â Chymru fodern a'r cyfraniad y gallant ei wneud i'w cymunedau.

3.1b A allai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?

Nid ydym wedi nodi effaith negyddol wrth ddylunio'r cwricwlwm. Caiff adborth ar y goblygiadau gweithredu ei gasglu unwaith y caiff y cwricwlwm drafft ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019.

3.2 Y Gymraeg

Ceir Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Atodiad C.

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnesau a'r cyhoedd?

Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith' a bydd pob MDPH yn cyfrannu at y diben hwn. Caiff dysgu am yrfaedd a dysgu cysylltiedig â gwaith eu cynnwys ym mhob MDPH er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael cipolwg ar fyd gwaith a gyrfaedd - a'u bod yn meithrin sgiliau cyflogadwyedd, gydag elfennau penodol o'r gwaith dysgu hwn yn rhan o'r MDPH Iechyd a Lles.

Dynodir llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y tri phwnc trawsgwricwlaidd gan sicrhau bod yr hanfodion ar waith. Caiff sgiliau ehangach meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesed ac effeithiolrwydd personol hefyd eu cynnwys ym mhob MDPH.

4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?

Bydd y cynigion yn nodi gofynion deddfwriaethol a fydd yn effeithio ar y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn amrywio o effeithiau uniongyrchol gofynion deddfwriaethol newydd ar awdurdodau lleol, ysgolion, penaethiaid a chyrrff llywodraethu i effeithiau canlyniadol ar Gonsortia Rhanbarthol, Estyn a Cymwysterau Cymru. Caiff y costau, yr arbedion a'r buddiannau i'r cyrrff hyn eu hystyried yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

4.3 Y Trydydd Sector

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'u gwaith?

Fel rhan o'r dull cyd-lunio o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, mae Meysydd Dysgu a Phrofiad unigol wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r trydydd sector sy'n briodol i'w meysydd. Pan gaiff y cwricwlwm newydd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019, bydd cyfle i sefydliadau o'r trydydd sector roi adborth.

4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bresennol o'r cynigion, mae'n annhebygol y bydd effaith ar y System Cyfiawnder. Caiff hyn ei ystyried ymhellach wrth i'r darpariaethau ddatblygu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

Cynhaliwyd yr asesiadau canlynol fel y bo'n ofynnol: Adnoddau Naturiol; Bioamrywiaeth; a Newid yn yr Hinsawdd.

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol?

Bydd hyblygrwydd y trefniadau deddfwriaethol arfaethedig yn golygu y bydd yr addysgu yn gallu pwysleisio bioamrywiaeth ac ecoleg o fewn amgylcheddau lleol y dysgwyr (MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg), ond gan hefyd eu helpu i edrych ar adnoddau naturiol yn y byd ehangach (MDPh y Dyniaethau).

5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol a'r cyfleoedd canlynol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Gall y nodweddion sy'n sail i'r pedwar diben gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac ecoleg e.e. drwy ddatblygu plant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac yn cydnabod eu bod yn dibynnu ar hynny; ac yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau gweithredu.

5.2 Bioamrywiaeth

Datblygwyd asesiad o'r effaith ar fioamrywiaeth yn Atodiad D gan gydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5.3 Newid yn yr Hinsawdd

5.3a Datgarboneiddio

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?

Fel y nodwyd uchod, mae pedwar diben addysg, sef y sylfaen ar gyfer yr holl addysgu a dysgu, yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd y blaned, gan gynnwys annog dysgwyr i ddeall eu bod yn dibynnu ar y blaned ac i ddangos eu hymrwymiad iddi ac ystyried effeithiau eu gweithredoedd.

Ni chynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar allyriadau gan fod a wnelo'r effeithiau â chodi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth, yn hytrach na gweithgarwch sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at leihau lefelau allyriadau.

5.3 b Addasu

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?

Fel y nodwyd uchod o dan datgarboneiddio.

5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Nid yw'r cynigion yn debygol o effeithio ar unrhyw rai o'r meysydd allweddol a restrwyd fel rhan o'r rheoliadau (amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafndiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir). O ganlyniad, nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol.

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Ni fydd y cynigion yn effeithio ar unrhyw rai o'r safleoedd a restrir o dan 'rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig Ewrop Natura 2000'. O ganlyniad, nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Ni fydd y cynigion yn effeithio ar y meysydd a restrir. O ganlyniad, nid oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

ADRAN 6. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

Aseiad Effaith	Oes/Nac oes
Hawliau plant	Oes
Cydraddoldeb	Oes*
Prawfesur Gwledig	Nac oes – i'w ystyried ymhellach
Iechyd	Nac oes – i'w ystyried ymhellach
Preifatrwydd	Nac oes
Y Gymraeg	Oes*
Economaidd / Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Oes
Cyfiawnder	Nac oes – i'w ystyried ymhellach
Bioamrywiaeth	Oes*
Newid yn yr Hinsawdd	Nac oes
Aseiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes
Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes
Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac oes

* Yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau statudol.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Cynhaliwyd y broses o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm drwy fodel cydlunio gyda chynrychiolwyr o'r system addysg yng Nghymru (Estyn, Consortia Rhanbarthol, Cymwysterau Cymru ac ymarferwyr). Mae rhwydwaith cenedlaethol o Ysgolion Arloesi wrth wraidd y broses hon. Mae'r rhwydwaith yn cynrychioli'r gwahanol fathau o ysgolion yng Nghymru (gwledig, trefol, mawr, bach, cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, dwyieithog, ysgolion â chymeriad crefyddol, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig). Fel rhan o'u rôl fel arloeswyr, mae'r ymarferwyr hyn wedi ymgysylltu â'u dysgwyr yn ogystal â'u hysgolion clwstwr a rhwydwaith er mwyn casglu safbwyntiau drwy gydol y broses.

Caiff adborth pellach gan bartïon â diddordeb ei gasglu pan gaiff y cwricwlwm drafft ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019, gan gynnwys llywodraethwyr a rhieni.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r cynigion yn anelu at drechu agweddau negyddol y system addysg bresennol yng Nghymru, a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus, gan adeiladu ar yr un pryd ar y cryfderau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys yr ymrwymiad i degwch.

Mae hawliau plant yn un o egwyddorion dylunio allweddol y trefniadau newydd, yn greiddiol i'r pedwar diben ac wedi'u cynnwys o fewn MDPH Iechyd a Lles a MDPH y Dyniaethau. Mae'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant ac yn cynnwys dull gweithredu sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar y dysgwr.

Mae'r cynigion yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion bioamrywiaeth drwy'r pedwar diben, fel y man cychwyn ar gyfer yr holl waith addysgu a dysgu, a'r MDPH Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm sy'n addas i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth. Mae'r hyblygrwydd a ddarperir drwy'r cynigion deddfwriaethol yn ategu hyn. Caiff dealltwriaeth bellach o'r effeithiau ar grwpiau gwarchoddedig ei hystyried drwy'r

ymgyngoriad ar y Papur Gwyn a phan gaiff y cwricwlwm ei gyhoeddi er mwyn cael adborth arno ym mis Ebrill 2019.

Mae'r cynigion yn cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynnal ei statws statudol fel rhan o'r cwricwlwm yng Nghymru. Drwy ddileu'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith, rydym yn ategu'r dull dysgu gwednewidiol, gan addysgu ac asesu'r Gymraeg gyda'r nod o sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r egwyddor hon wrth wraidd y broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r pedwar diben, fel y man cychwyn ar gyfer yr holl waith addysgu a dysgu ac wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth, yn cyfrannu at y saith nod llesiant drwy ddatblygu plant a phobl ifanc fel: dysgwyr uchelgeisiol, galluog; cyfranwyr mentrus, creadigol; dinasyddion egwyddorol, gwybodus; unigolion iach, hyderus. Mae'r pedwar diben hefyd yn sicrhau bod trefniadau'r cwricwlwm yn cyfrannu at bedair thema allweddol Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol. Mae'r trefniadau newydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ymarferwyr ddefnyddio eu creadigrwydd a'u barn broffesiynol i gyflwyno cwricwlwm sy'n cefnogi eu grwpiau o ddysgwyr a'u cyd-destunau penodol.

Mae egwyddorion dylunio'r trefniadau newydd yn cefnogi effeithiau cadarnhaol drwy sicrhau bod y cwricwlwm yn gynhwysol, yn ymateb i anghenion dysgwyr yn ddiweddarach mewn bywyd, yn llwyddo i ennyn diddordeb pob dysgwr, ac yn seiliedig ar sybsidiaredd er mwyn annog perchenogaeth gan ymarferwyr a'u hannog i wneud penderfyniadau er mwyn cyflwyno cwricwlwm sy'n addas ar gyfer eu hystafelloedd dosbarth.

Bydd y cynigion yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant drwy wneud y canlynol:

- sicrhau bod y cwricwlwm yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr yn y 21^{ain} ganrif a'i fod yn ddigon hyblyg i addasu dros amser;

- Datblygu plant a phobl ifanc fel: dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Anelu at gefnogi a pharatoi plant a phobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolyn a dymchwel y cychoedd negyddol sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Argymhellodd Dyfodol Llwyddiannus y 'dylai trefniadau gwerthuso annibynnol gael eu sefydlu ar wahân i fonitro effeithiolrwydd y strwythur newid a'r trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm mewn cysylltiad â gwelliannau yn ansawdd dysgu a pherfformiad' (Argymhelliad 55).

Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn datblygu dull o werthuso'r trefniadau newydd a'r diwygiadau ehangach a amlinellwyd yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl a bydd y cynigion a gyflwynwyd yn y Papur Gwyn hwn yn rhan o'r gwaith cynllunio hwnnw.

ADRAN 8. DATGANIAD

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad:

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Cwricwlwm

Caiff y cwricwlwm i ysgolion yng Nghymru ei ddiffinio fel cwricwlwm sy'n cynnwys yr holl brofiadau dysgu a'r holl weithgareddau asesu a gynlluniwyd er mwyn anelu at ddibenion addysg y cytunwyd arnynt. Rhoddodd y cynigion y pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Dyma'r man cychwyn ar gyfer yr holl waith addysgu a dysgu. Mae pedwar diben y cwricwlwm yn nodi y dylai plant a phobl ifanc ddatblygu fel:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau dilys o gymdeithas.

Ymhelaethir ar y pedwar diben drwy nodweddion allweddol, er mwyn darparu canllaw ymarferol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a'r addysgu a'r dysgu. Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i ysgolion ystyried y nodweddion allweddol hyn sy'n cynnwys datblygu dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n deall ac yn arddel eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd ac yn parchu anghenion a hawliau eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.

Caiff y cwricwlwm ei ddylunio fel continwwm ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'r broses ddylunio a datblygu yn sicrhau bod y cwricwlwm yn:

- adlewyrchu dibenion y cwricwlwm yn uniongyrchol a'u hyrwyddo
- ymgorffori'r hawl sydd gan bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anawsterau dysgu difrifol, dwys neu luosog, i gael addysg eang o ansawdd uchel sy'n briodol gytbwys drwy gydol eu cyfnod o fewn addysg statudol

Bydd y cwricwlwm newydd a'r fframwaith asesu wedi'i anelu at bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru er gwaethaf unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod ganddynt, a bydd yn cynnwys y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, sef:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a lles
- Y Dyniaethau
- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Bydd pynciau a disgyblaethau yn parhau'n bwysig ond cânt eu grwpio o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad mewn ffordd fwy integredig. Yn wir, ni ddylid ystyried y Meysydd Dysgu a Phrofiad eu hunain fel adrannau caeth. Dylai ymarferwyr ddefnyddio'r gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad wrth gynllunio a gweithio mewn ffordd gydweithredol a chreadigol ar draws ffiniau pynciau yng nghyd-destun y pedwar diben. Dylai hyn arwain at brofiad mwy cyfannol o ran y dysgu ac at greu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm.

Rydym yn cynnig y dylid defnyddio un continwmm dysgu ar gyfer pob plentyn rhwng 3 ac 16 oed. Mae'r cynnig i ddileu camau a chyfnodau allweddol er mwyn gwella cynnydd ac felly gynyddu'r potensial ar gyfer cyrhaeddiad uwch drwy leihau'r angen i bontio a'r newidiadau o ran dibenion a dull gweithredu ar adegau penodol yn ystod cyfnod dysgwyr yn yr ysgol yn unol â Dyfodol Llwyddiannus ac yn anelu at sicrhau na chaiff dyheadau dysgwyr eu cyfyngu.

Bydd y strwythur yn gynhwysol, gyda phob plentyn a pherson ifanc yn gwneud cynnydd ar hyd yr un continwmm, er gwaethaf unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod ganddynt, er y byddant o bosibl yn symud rhwng Camau Cynnydd yn arafach neu'n gyflymach nag eraill. Bydd dull dysgu mwy personol yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i wneud cynnydd ar gyflymder addas, ac i gael ei herio'n briodol. Bydd y Deilliannau Cyflawniad a fynegir ar gyfer pob Cam Cynnydd yn nodi pwyslais ar gyflawniad cyffredinol, yn hytrach na dim ond mesurau cyrhaeddiad culach. Mae'r deilliannau hyn yn ehangu cwmpas yr hyn rydym yn ei werthfawrogi o ran dysgu plant a phobl ifanc. Caiff anghenion amrywiol dysgwyr eu hystyried wrth i'r broses ar gyfer datblygu'r cwricwlwm fynd rhagddi.

Nododd *Dyfodol Llwyddiannus* fod y system bresennol bellach yn canolbwyntio ar lunio barnau cyffredinol, ffit orau ynghylch perfformiad. O ganlyniad, ni roddir digon o sylw ar gynnydd gyda'r barnau 'ffit orau' yn cuddio amrywiadau eang yn y cynnydd a wneir mewn gwahanol agweddau ar ddysgu. Cynigiwn y dylid dileu'r system 'Lefelau' bresennol. Bydd ysgolion yn datblygu asesiadau yn seiliedig ar y Deilliannau Cyflawniad a ddisgrifir ar gyfer pob Cam Cynnydd. Caiff Camau Cynnydd eu diffinio mewn deddfwriaeth ac maent wedi'u pennu'n fwriadol dros gyfnodau o ddwy neu dair blynedd er mwyn rhoi cyfle i athrawon gynllunio ac asesu'r dysgu heb gyfeirio'n barhaus at feini prawf a bennir yn allanol. Bydd Camau Cynnydd yn cael eu disgrifio ar bum pwynt yn y continwwm dysgu, a fydd yn cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed. Pwyntiau cyfeirio yw'r Camau Cynnydd, sy'n darparu 'map ffordd' ar gyfer cynnydd dysgu pob plentyn a pherson ifanc unigol, yn hytrach na disgwyliadau cyffredinol ar gyfer perfformiad pob plentyn a pherson ifanc ar adegau penodedig. Er mwyn ategu hyn, rydym hefyd yn cynnig y bydd dyletswydd ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar sut y gall dysgwyr symud ymlaen ar hyd y continwwm ac sy'n galluogi'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i gyrraedd pob Cam Cynnydd, neu ragori arno, o fewn y cyfnod perthnasol o dair blynedd.

Bydd y cwricwlwm newydd yn eang, yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol. Un o'r dibenion hyn yw y bydd pob un o'n plant a'n pobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. Mae hyn yn cynnwys pennu safonau uchel iddynt hwy eu hunain a chwilio am heriau a'u mwynhau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr Mwy abl a Thalentog (MAT).

Yn ogystal, cydluniwyd ein polisiau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a diwygio'r cwricwlwm â rhanddeiliaid ac maent yn rhannau allweddol o'n Cenhadaeth Genedlaethol i wella safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae swyddogion wrthi'n cydweithio ym mhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth Addysg er mwyn helpu i sicrhau cysondeb rhwng y system ADY newydd, diwygiadau i'r cwricwlwm a'r rhaglen dysgu proffesiynol ehangach.

O 14 oed ymlaen, bydd pobl ifanc yn dechrau arbenigo a gwneud dewisiadau. Fodd bynnag, byddant yn parhau i gael profiadau o bob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn sicrhau ehangder y cwricwlwm. Mae rhai agweddau penodol ar y cwricwlwm y bydd dysgwyr yn parhau i'w hastudio ni waeth pa ddewisiadau y byddant wedi'u gwneud. Mae'r rhain yn cynnwys Cymraeg, Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, yn

ogystal ag agweddau sy'n ategu blaenoriaethau cenedlaethol megis gwyddoniaeth ac iechyd. Y nod yw sicrhau cydbwysedd o ran ehangder ac arbenigedd gyda ffocws ar bedwar diben addysg. Caiff cymwysterau eu datblygu'n unol â Chamau Cynnydd 4 a 5.

Asesu

Bydd continwmm dysgu rhwng 3 ac 16 oed. Byddem yn ceisio rhoi darpariaeth ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid wneud trefniadau i ddysgwyr gael eu hasesu drwy gydol y flwyddyn ar y continwmm dysgu 3-16 oed.

Rydym eisoes yn gwneud newidiadau i'n profion cenedlaethol, ac wedi cyflwyno asesiadau personol. Diben yr asesiadau yw helpu dysgwyr i wneud cynnydd, drwy ddeall beth y gallant ei wneud, y pethau y mae angen iddynt weithio arnynt, a'r camau nesaf. Mewn asesiadau personol neu 'addasol', caiff y cwestiynau eu dewis ar sail ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Mae hyn yn rhoi profiad asesu unigol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr. Mae gan ysgolion lawer mwy o reolaeth dros yr asesiadau hyn a gallant benderfynu pryd y byddai dysgwr, neu grwpiau o ddysgwyr, yn cael y budd mwyaf o'r asesiad, yn wahanol i'r profion cenedlaethol presennol lle ceir cyfnod penodol ar gyfer cynnal profion.

O ran y trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr; rydym yn chwilio am bŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer y trefniadau asesu o dan y Fframwaith Asesu a Gwerthuso.

Mae gan y cynigion asesu ffocws cryf ar ddatblygu a gwella plant a phobl ifanc, yn hytrach nag ar atebolrwydd, gyda dysgwyr yn rhan greiddiol o'r broses. Mae'r pwyslais ar asesu myfyrwyr mewn ffordd ffurfiannol lle nad oes llawer yn y fantol (gyda chymwysterau allanol yn cael eu datblygu i ategu Chamau Cynnydd 4 a 5) (gydag arholiadau allanol yn 16 oed).

Rhoddir blaenoriaeth i asesiadau ffurfiannol, gan gydnabod bod arferion asesu ffurfiannol sy'n rhoi adborth am *beth* y mae angen i ddysgwr ei wneud er mwyn gwella, neu'n gofyn cwestiwn er mwyn helpu dysgwr i feddwl mewn ffordd wahanol er mwyn ei helpu i wella yn cael mwy o effaith ar wella dysgwyr na chynnig asesiad mwy crynodol iddynt e.e. lefel neu radd.

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi bod angen pwyntiau cyfeirio ar ysgolion, athrawon, rhieni a gofalywyr er mwyn penderfynu p'un a yw plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd priodol o ran eu

dysgu. Mae Camau Cynnydd yn darparu'r pwyntiau cyfeirio hyn. Rhaid i'r trefniadau asesu newydd ymdrin â'r pwyslais presennol ar asesu crynodol a sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i drefniadau asesu ffurfiannol fel rhan hanfodol a naturiol o'r broses addysgu. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y trefniadau asesu yn gymesur ac yn ategu cynnydd mewn dysgu er mwyn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc.

Tystiolaeth ac Ymgynghori

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (yr Adolygiad), cyflwynodd *Dyfodol Llwyddiannus* egwyddorion ar gyfer dylunio'r cwricwlwm a nododd y dylai unrhyw strwythur arfaethedig fodloni nifer o feini prawf, gan gynnwys sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd y gwaith.

Cynhaliodd yr Adolygiad gais cenedlaethol am dystiolaeth, gan annog rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru i gyflwyno eu safbwyntiau a helpu i lywio canlyniad yr Adolygiad. Er mwyn ysgogi dadl a thrafodaeth, roedd y cwestiynau a gynhwyswyd yn y cais am dystiolaeth yn fwriadol eang a phenagored ac roeddent yn cynnwys cwestiynau fel 'Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru? Cafwyd dros 700 o ymatebion i'r cais, yr oedd dros 300 ohonynt gan blant a phobl ifanc. Oherwydd natur amrywiol yr ymatebion, penodwyd Sefydliad Cymru dros Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau (WISERD) i ddadansoddi'r ymatebion.

Pryder a nodwyd dro ar ôl tro ymhlith y plant a'r bobl ifanc a siaradodd â Thîm yr Adolygiad oedd y canfyddiad nad oedd y cwricwlwm presennol i ysgolion yn gyfoes mewn perthynas â thechnoleg ddigidol. Gwnaethant sôn am ddulliau addysgu llafurus mewn perthynas â pheccynnau meddalwedd a oedd naill ai'n syml i'w defnyddio'n reddf, yn eu barn nhw, neu eisoes wedi dyddio. Yn yr un modd, roedd cynrychiolwyr busnes yn bryderus iawn nad oedd ysgolion yn datblygu mewn ffordd sy'n gydnaws â'r gweithle digidol newydd. Roeddent o'r farn bod y gallu i ddefnyddio technoleg mewn modd creadigol er mwyn ymchwilio a datrys problemau yn gymwyseddau allweddol y byddent am i ddarpar gyflogeion feddu arnynt. Argymhellodd *Dyfodol Llwyddiannus* y dylid rhoi'r un statws i gymhwysedd digidol â llythrennedd a rhifedd fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yn y cwricwlwm newydd. Rhoddwyd y broses o ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ar lwybr carlam ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2016 er mwyn

galluogi iddo gefnogi cymhwysedd digidol mewn ysgolion cyn cyflwyno'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Yn ogystal, byddai plant a phobl ifanc yn arbennig, ond nid nhw'n unig, yn hoffi gweld mwy o ffocws ar gymwyseddau cymdeithasol cyffredinol (sgiliau bywyd a hyder personol, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)), sgiliau sylfaenol (h.y. llythrennedd a rhifedd) a mwy o arweiniad ar addysg alwedigaethol a gyrfaoedd. Mae adroddiad WISERD yn awgrymu bod y safbwyntiau hyn hefyd wedi'u hadlewyrchu yn yr ymatebion a gafwyd i'r cais am dystiolaeth. Yn ôl ei ddadansoddiad, roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylai ysgolion fod yn '....gwneud mwy na dim ond trosglwyddo gwybodaeth. Er bod dysgu llwyddiannus fel un o ddeilliannau addysg o werth mawr i bob rhanddeiliad (gan gynnwys plant a phobl ifanc), roedd amrywiaeth o ddeilliannau eraill o werth mawr hefyd. Roedd cymwyseddau cymdeithasol cyffredinol, sgiliau bywyd a hyder personol oll yn cael eu hystyried yn bethau pwysig i'w cael o'r ysgol'. Adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn yn y cynigion ar gyfer cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd statudol (Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol); ac wrth gynnwys sgiliau ehangach yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae cynnwys MDPH yn benodol ar gyfer Iechyd a Lles a rhoi statws cyfwerth iddo a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill hefyd yn adlewyrchu'r pwyslais a roddodd plant a phobl ifanc ar addysg bersonol a chymdeithasol.

Roedd plant a phobl ifanc am i wersi fod yn fwy perthnasol a diddorol, gyda mwy o wersi ymarferol, mwy o hwyl, mwy o ryngweithedd a mwy o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ceir ymdeimlad fod brwdfrydedd mwy cyffredinol dros ddysgu wedi'i aberthu yn y ras am gymwysterau.

Drwy'r broses ddylunio, ymgynghorwyd yn llawn ag amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau. Rydym wedi ymgysylltu â gwahanol leoliadau er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys lleoliadau a grwpiau yn y Cyfnod Sylfaen sy'n canolbwyntio ar ADY. Er enghraifft, mae'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesol yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion gwahanol gyfryngau iaith, ysgolion arbennig ac ymarferwyr o'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r model datblygu hwn wedi annog ymarferwyr i ymgysylltu â dysgwyr ar y cynigion arfaethedig ar gyfer y cwricwlwm ac wedi bwydo'r gwaith hwn yn ôl i mewn i'r broses ddylunio. Yn ogystal, mae Prosiect Camau (o dan arweiniad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol

Glasgow) er mwyn helpu i ddatblygu cynnydd yn y cwricwlwm wrthi'n datblygu pecyn cymorth i ymarferwyr ei ddefnyddio i'w helpu i gynnwys llais y dysgwyr wrth ddylunio'r cwricwlwm.

Bydd y gwaith diwygio ar gyfer y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu newydd yn cynnwys ymgynghoriad eang ar y Papur Gwyn a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2019 gan gynnwys Grwpiau Plant ac Ieuenctid.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cyfle i gynnal trafodaethau pellach gydag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid ar effaith y cynigion. Caiff y gweithgaredd hwn ei ategu gan waith ymgysylltu pellach pan gaiff y cwricwlwm ei gyhoeddi er mwyn cael adborth arno ym mis Ebrill 2019. Caiff y wybodaeth hon ei hystyried mewn fersiynau drafft o'r asesiad effaith hwn yn y dyfodol.

Yn y tymor hwy, mae Dyfodol Llwyddiannus yn argymhell y "dylai trefniadau gwerthuso annibynnol gael eu sefydlu ar wahân i fonitro effeithiolrwydd y strwythur newid a'r trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm mewn cysylltiad â gwelliannau yn ansawdd y dysgu." Mae swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu cynllun gwerthuso ar gyfer y cwricwlwm, a chaiff yr effaith ar blant a hawliau plant ei hystyried fel rhan o'r fframwaith hwn.

2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu arfaethedig yn cyfrannu at yr erthyglau canlynol o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

- Erthygl 28 - Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai trefniadau disgyblu mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd mwy cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.
- Erthygl 29 - Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn i'r eithaf. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant eu hunain a diwyllianau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod anghenion ein plant a'n pobl ifanc wrth wraidd y cwricwlwm newydd. Roedd y broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd yn Dyfodol Llwyddiannus yn seiliedig ar gyfres o ddeg egwyddor, gan gynnwys yr egwyddor y dylai'r cwricwlwm fod yn gynhwysol ac y dylai ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r

Plentyn: *'gan ystyried eu [plant a phobl ifanc] barn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a barn rhieni, gofawyr a chymdeithas ehangach.'*

Bydd y pedwar diben wrth wraidd dysgu a phrofiad pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, ni waeth pa ysgol neu leoliad addysgol a gynhelir y maent yn mynd iddi/iddo. Yn benodol, mae'r pedwar diben yn cydnabod rôl hawliau plant - bydd pob plentyn a pherson ifanc yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus: sy'n parchu anghenion a hawliau eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol; ac sy'n deall ac yn arddel eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd .

Mae hawliau plant hefyd yn rhan o'r MDPH Iechyd a Lles a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r datganiad Beth sy'n Bwysig drafft yn y MDPH Iechyd a Lles yn adlewyrchu hawliau plant - *Mae cydberthnasau iach yn hanfodol i'n hymdeimlad o berthyn a lles sy'n cynnwys yr egwyddor cymorth cynllunio ganlynol Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol bod parch, tegwch a chydabod hawliau ei gilydd yn rhan bwysig o gydberthnasau cadarnhaol, iach a diogel.* Adlewyrchir hyn hefyd yn y disgwyliadau yn y Camau Cynnydd sy'n adlewyrchu'r angen i blant a phobl ifanc wybod a deall eu hawliau.

Mae'r datganiad Beth sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau hefyd yn adlewyrchu hawliau plant - *Mae pobl yn wynebu llawer o heriau a chyfleoedd, yn unigol ac ar y cyd, sy'n gofyn am ymatebion gwybodus ac ystyrlon, sy'n cynnwys yr egwyddor cymorth cynllunio ganlynol Bydd dysgwyr yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac yn gwneud dewisiadau egwyddorol, gwybodus.*

B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn cael eu dylunio a'u datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn hygyrch i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth rhwng 3 ac 16 oed. Ategir hyn gan y gweithgareddau galluogol sydd ar waith, fel y nodwyd yn Addysg yng Nghymru: *Cenhadaeth ein cenedl i greu 'Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant'*.

Mae'r cynigion deddfwriaethol yn cynrychioli hyblygrwydd yn y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd i alluogi ysgolion a'r lefel leol i ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, ac ymateb i'r heriau hynny. Bydd y trefniadau yn caniatáu i ysgolion ac ymarferwyr integreiddio eu cyd-destunau lleol â'r gwaith addysgu, y gwaith dysgu a'r profiadau er mwyn sicrhau tegwch ymhlith pob grŵp o ddysgwyr.

Mae meini prawf dylunio'r trefniadau newydd yn hyrwyddo tegwch ymhlith dysgwyr drwy ganolbwyntio ar y canlynol:

- Y pedwar diben i ddatblygu plant a phobl ifanc, fel y man cychwyn ar gyfer yr holl waith addysgu a dysgu;
- Mae nodweddion y pedwar diben yn nodi nodweddion penodol sy'n cefnogi cydraddoldeb, e.e. dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol.
- Meysydd Dysgu a Phrofiad statudol sy'n rhoi'r un statws i Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill yn y cwricwlwm.
- Mae Ysgolion Arloesi, drwy ddatblygu'r cwricwlwm, wedi ystyried sut mae amgylchedd yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol plant a phobl ifanc, h.y. dull gweithredu ysgol gyfan.
- Darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb statudol hyd at 16 oed.

- Bydd dysgwyr yn gallu ystyried sut mae cyfreithiau a pholisïau yn cyfrannu at gydraddoldeb a hawliau dynol mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau drwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y MDPH Iechyd a Lles.
- Mae'r egwyddorion ar gyfer dylunio'r cwricwlwm yn cynnwys 'yn gynhwysol - yn hawdd i bawb ei ddeall, gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel a chael ystyried ei farn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).'

Mae'r cwricwlwm yn anelu at hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r trefniadau asesu a gwerthuso. Prif amcan y trefniadau asesu a gwerthuso yw gwella'r deilliannau i bob dysgwr. Cyflawnir hyn drwy wella arferion ar wahanol lefelau o'r system ysgolion, gan gynnwys dulliau addysgu, prosesau arweinyddiaeth ysgolion, ffyrdd o drefnu'r dysgu, a chyfeiriad polisi addysg. Bydd mwy o ffocws ar asesu ffurfiannol yn y system newydd a dull gweithredu personol mewn perthynas â chynnydd pob dysgwr er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:

Oedran (gan gynnwys plant hyd at 16 oed)

Bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn gymwys i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Nod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yw datblygu a chefnogi pob dysgwr i ddatblygu ei botensial a gwella deilliannau'r dysgwyr hyn. Bydd y trefniadau yn sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt fel oedolion, yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu yn unol â'r pedwar diben a'r nodweddion cysylltiedig. Felly, cynigir y bydd y trefniadau yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

Bydd cynigion penodol i leihau'r terfyn oedran gorfodol ar gyfer Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael effeithiau penodol ar ddysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir. Cynigir y bydd effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr ôl-16 o ganlyniad i'r newid hwn gan y byddant yn gallu dewis pa bynciau a gaiff eu hastudio ganddynt.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ysgolion ddarparu Addysg Grefyddol ac addysg rhyw i bob disgybl cofrestredig; mae hyn yn cynnwys dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd.

Dyma'r unig bynciau cwricwlaidd y mae'n rhaid i ddisgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion eu hastudio. Gan fod addysg orfodol yn dod i ben yn 16 oed, rydym yn cynnig y dylid diddymu'r ddyletswydd statudol i ysgolion ddarparu Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y chweched dosbarth.

Yn unol â'r trefniadau presennol mewn colegau AB, os bydd dysgwr yn awyddus i gael gwersi Addysg Grefyddol, bydd yn rhaid i ysgolion eu darparu. Mae hyn yn golygu y gellir gweithredu mewn modd cyson wrth ystyried hawliau pobl ifanc 16, 17 ac 18 oed i wneud penderfyniadau o ran cymryd rhan mewn gwersi Addysg Grefyddol, gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gweithgarwch Addoli ar y Cyd, ni waeth pa leoliad y maent yn ei fynychu.

Mae'r penderfyniad polisi hwn hefyd yn gweithredu fel sail ar gyfer y camau lliniaru i newid er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol.

Anabledd

Yn 2017, roedd cyrhaeddiad (yn y Dangosydd Pynciau Craidd / Dangosydd Cyfnod Sylfaen) disgyblion ar y Gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig yn is yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 na'r ganran ar gyfer pob disgybl¹.

Tabl 1: Canran y disgyblion ar y gofrestr AAA a gyflawnodd y deilliant disgwylidig neu'r lefel ddisgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn 2017.

	Disgyblion ar y gofrestr AAA	Pob disgybl
Canran y disgyblion yn CA3 a gyflawnodd o leiaf y lefel ddisgwylidig (L5) mewn asesiadau athrawon ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC)	62.4%	87.7%

¹ <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>

Disgyblion yn CA2 a gyflawnodd o leiaf y lefel ddisgwyliedig (L4) mewn asesiadau athrawon ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC)	65.3%	89.7%
Canran y disgyblion a gyflawnodd o leiaf y deiliant disgwyliedig (deiliant 5) mewn asesiadau athrawon ar gyfer y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS).	57.8%	87.4%

Ffynhonnell: <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>

Rhaid i'r cwricwlwm roi'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol gyflwyno cynnwys a phrofiadau penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr a'u cyd-destun penodol; er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ag anabledau. Mae'r cynigion deddfwriaethol yn ceisio ail-bwysleisio'r egwyddorion hyn drwy osod cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn canllawiau statudol. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i addasu'r cwricwlwm yn eu hysgol er mwyn sicrhau y caiff anghenion a diddordebau eu dysgwyr a'u cymunedau eu cefnogi yn y ffordd orau, gan gynnwys dysgwyr anabl a'r rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Y rhesymau dros y penderfyniad a champau lliniaru

Mae'r egwyddorion dylunio ar gyfer y trefniadau newydd yn nodi y dylent fod yn briodol ar gyfer pob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth sy'n sicrhau y gall plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fanteisio ar y cwricwlwm. Mae'r maen prawf hwn yn golygu y caiff y cwricwlwm ei ddatblygu er mwyn bod yn gynhwysol: yn hawdd i bawb ei ddeall, gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel a chael ystyried ei farn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a barn rhieni, gofalwyr a chymdeithas ehangach.

Mae ysgolion arbennig wedi gallu ystyried anghenion eu disgyblion yn y broses ddylunio drwy sicrhau eu bod wedi'u cynrychioli ar bob grŵp MDPH, Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, y Grŵp Cydlynid a'r Grŵp Ymarferoldeb.

Mae'r pedwar diben yn fan cychwyn ar gyfer yr holl waith addysgu a dysgu ac maent yn gymwys i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth, er enghraifft, unigolion iach a hyderus sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ymdopi â bywyd bob dydd mewn ffordd mor annibynnol â phosibl. Dylai

ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn unol â hynny. Mae digon o hyblygrwydd yn y cwricwlwm i ddiwallu anghenion dysgwr heb fod angen eu datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, fel arfer am gyfnod dros dro, ond ni ddylid datgymhwyso grwpiau o ddysgwyr na nifer fawr o ddysgwyr.

Lle nad yw'n bosibl ymdrin â chynnwys pob MDPH, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys yn unol â'r pedwar diben drwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm fel cyd-destunau ar gyfer dysgu.

Dyluniwyd y Meysydd Dysgu a Phrofiad gyda chyfraniad Ysgolion Arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i bob dysgwr. Mae'r is-grŵp ADY yn datblygu canllawiau ar gyfer ADY mewn ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn gynhwysol. Yn ogystal, cynhaliwyd ffrwd waith benodol er mwyn ystyried 'Ar Drywydd Dysgu' yn ystod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn hygyrch i bawb. Mae'r is-grŵp ADY yn hwyluso hyn drwy ddatblygu adnoddau er mwyn helpu dysgwyr i wneud cynnydd o 'Ar Drywydd Dysgu' i Gam Cynnydd 1.

Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol)

Mae'n bosibl y caiff cynigion i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol effaith gadarnhaol ar y dysgwyr hyn gan ei bod yn codi ymwybyddiaeth o gydberthnasau parchus, ymddygiad cadarnhaol a derbyn amrywiaeth. Bydd hefyd yn anelu at annog ysgolion i ystyried sut y maent yn rhoi cymorth ac yn cynnig cyfleoedd dysgu i LGBTQI+. Mae hefyd yn anelu at ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn perthynas â materion megis rhywedd ac anghydraddoldeb a cheisio meithrin dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas â chynhwysiant a goddefgarwch.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chymau lliniaru

Yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru (2017), roedd argymhellion y Panel Arbenigol ar Ryw a Chydberthnasau yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion i bob person ifanc, ni waeth beth fo'i rywedd na'i gyfeiriadedd rhywiol. O ganlyniad i'r argymhellion, cynigir y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan statudol o'r cwricwlwm i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 16 oed, gan gyfrannu at y pedwar diben, yn

benodol: dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol; ac unigolion iach a hyderus sy'n ffurfio cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.

Dengys gwaith ymchwil a gyflwynwyd yn Adroddiad Ysgol Cymru Stonewall (2017) fod pobl ifanc LGBTQI+ yn fwy tebygol o ddiodeff iechyd meddwl gwael, hunan-niwed ac iselder o hyd. Mae'r newidiadau i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm yn anelu at drechu hyn drwy helpu pob dysgwr i deimlo'n ddiogel yn emosiynol ac yn gorfforol er mwyn iddynt allu cyflawni eu llawn potensial.

Mae'r cynigion yn amlinellu'r angen am ganllawiau statudol ar ddarpariaeth addysg rhyw 'oed-briodol'. Mae hyn yn cydnabod, er y bydd oedran yn ffactor o hyd wrth wneud penderfyniadau am y ddarpariaeth, y bydd angen i ysgolion ystyried datblygiad corfforol a gwybyddol eu dysgwyr, gan gynnwys ystyried profiadau dysgwyr, wrth wneud penderfyniadau am gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn cefnogi'r effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr o'r grŵp hwn.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar drwy roi'r hyblygrwydd i ymarferwyr addasu'r cwricwlwm a gyflwynir yn yr ystafell ddosbarth i adlewyrchu anghenion eu dysgwyr ac i adlewyrchu eu cymuned leol. Yn ogystal, gall Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael effaith gadarnhaol o ran atal merched ifanc yn eu harddegau rhag beichiogi ac achosion o glefydau a drosglwyddir yn rhywiol.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Caiff y cwricwlwm ei ddylunio ar gyfer pob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth ledled Cymru, a cheir hyblygrwydd, drwy'r cynigion deddfwriaethol, i ymarferwyr ddatblygu eu cwricwlwm er mwyn helpu eu grwpiau o ddysgwyr. Mae'r cynigion yn awgrymu y dylid cadw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datgymhwyso er mwyn gallu esgusodi dysgwyr rhag ymgymryd â rhai agweddau ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu os bydd angen. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ddysgwyr ac ysgolion ddatblygu tuag at y pedwar diben gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau.

Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)

Dengys tystiolaeth, yn y system bresennol, fod cyrhaeddiad disgyblion yng Nghymru yn wahanol yn ôl eu cefndir ethnig (Llywodraeth Cymru, 2018). Er enghraifft, dengys Dangosyddion Pynciau Craidd (DPC) Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3, a'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen, fod gan ddisgyblion o gefndiroedd Sipsiwn a Theithwyr, Sipsiwn a Sipsiwn Roma lefelau cyrhaeddiad is o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob disgybl yng Nghymru². Fodd bynnag, mae disgyblion o gefndiroedd Tsieineaidd neu Dsieineaidd Prydeinig yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru yn erbyn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen a'r Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3³.

Tabl 2: Canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwylidig neu'r lefel ddisgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn ôl grŵp ethnig (2015-2017 wedi'u cyfuno).

<i>Cefndir Ethnig</i>	Dangosydd Cyfnod Sylfaen (canran a gyflawnodd o leiaf y deilliant disgwylidig ym mhob Maes Dysgu)	Dangosydd Pynciau Craidd yn CA2 (canran a gyflawnodd o leiaf y lefel ddisgwylidig ym mhob pwnc craidd)	Dangosydd Pynciau Craidd yn CA3 (canran a gyflawnodd o leiaf y lefel ddisgwylidig ym mhob pwnc craidd)
<i>Pob Disgybl</i>	87.2%	88.8%	86.0%
<i>Gwyn - Prydeinig</i>	87.7%	89.1%	86.0%
<i>Teithwyr</i>	59.5%	53.6%	39.2%

² <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=&lang=cy>

³ <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=&lang=cy>

<i>Sipsiwn/Sipsiwn Roma</i>	54.2%	65.7%	34.9%
<i>Cymysg</i>	88.8%	90.6%	86.0%
<i>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig</i>	89.6%	90.8%	89.7%
<i>Du neu Ddu Prydeinig</i>	83.1%	84.9%	82.8%
<i>Tsieineaidd neu Dsieineaidd Prydeinig</i>	89.4%	92.9%	94.9%
<i>Unrhyw grŵp ethnig arall</i>	78.3%	82.9%	82.3%

Ffynhonnell: <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>

Yn 2017/18, roedd 27,836 o ddysgwyr 5 oed a throsodd nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu mamiaith. ⁴ Dengys tystiolaeth o'r system bresennol fod dysgwyr yr oedd Saesneg yn iaith newydd iddynt (lle roedd yn iaith ychwanegol (SIY)) gyrhaeddiad is na'r rheini a oedd yn rhugl⁵.

Caiff y cwricwlwm a'r trefniadau asesu eu dylunio ar gyfer pob dysgwr. Yn sail i'r gwaith datblygu, mae'r gred na ddylai eu cefndir na lle maent yn byw ddylanwadu ar allu unigolion i fanteisio ar addysg. Mae'r cwricwlwm hwn yn gwricwlwm i bob dysgwr ac mae'n canolbwyntio ar ddull gweithredu mwy personol o ddysgu a gwneud cynnydd er mwyn cefnogi'r amcan o gau'r bwch cyrhaeddiad. O ganlyniad, cynigir bod effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc o wahanol hiliau.

⁴ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andoverfirstlanguageotherthanenglishwelsh-by-localauthorityregion-year>

⁵ <https://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-pupil-characteristics/?skip=1&lang=cy>

Mae'r cwricwlwm yn anelu at roi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r hanesion, y diwylliannau, y gwerthoedd a'r dreftadaeth amrywiol sy'n gysylltiedig â Chymru fodern a'r cyfraniad y gallant ei wneud i'w cymunedau. Bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrion ar eu rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang sy'n byw mewn cymdeithas ag amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. Yn ogystal, mae'r MDPH leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys iaith ryngwladol fel elfen allweddol. Bydd ymgysylltu'n feirniadol â'r cwricwlwm yn helpu dysgwyr i ystyried cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar barch at ei gilydd, goddefgarwch ac urddas mewn cymdeithas amrywiol. Mae'r egwyddorion allweddol drafft hyn yn rhan o resymeg ehangach sy'n ymwneud â dimensiwn Cymreig a safbwynt rhyngwladol a gaiff ei chynnwys ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Dyluniwyd y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth. Mae Dyfodol Llwyddiannus wedi ein herio i ailystyried ein dull gweithredu mewn perthynas â'r cwricwlwm ac yn nodi bod lefel uchel o gyfarwyddyd a manylder ar lefel genedlaethol yn cyfyngu ar "*y llyf a'r dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc*". Mae'r cynigion yn nodi hyblygrwydd o fewn fframwaith cenedlaethol eang sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyflwyno cwricwlwm yn unol â'r pedwar diben, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad a'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gyda chynnwys y cwricwlwm wedi'i nodi mewn canllawiau statudol. Mae'r cysyniad o sybsidiaredd yn rhoi'r hyblygrwydd i ymarferwyr sicrhau bod y cwricwlwm a gyflwynir yn yr ystafell ddosbarth yn ystyrlon i bob un o'u dysgwyr a'i fod yn adlewyrchu eu cymuned leol.

Mae'r pedwar diben yn gweithredu fel y man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad wrth ddylunio'r cwricwlwm yn ogystal â'r dysgu a'r addysgu. Mae hyn yn cynnwys datblygu dysgwyr fel dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.

Er mwyn helpu dysgwyr nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu mamiaith, bydd y MDPH leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys leithoedd Rhyngwladol. Mae hyn yn golygu y gall ysgolion gydnabod iaith y cartref wrth ystyried taith dysgwr ar hyd y continwmm ac wrth fesur cyrhaeddiad.

Crefydd, cred a diffyg cred

Mae gan bob Awdurdod Lleol faes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol y mae'n rhaid i ysgolion (ac eithrio ysgolion crefyddol sy'n dilyn meysydd llafur enwadol) ei gyflwyno. Mae'r disgrifiad o faes llafur cytûn a amlinellir yn Neddf Addysg 1996 ar hyn o bryd yn darllen fel a ganlyn:

Every agreed syllabus shall reflect the fact that the religious traditions in Great Britain are in the main Christian whilst taking account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Great Britain.

Cynigir y dylid diweddarau'r disgrifiad hwn er mwyn cynnwys credoau anghrefyddol ac adlewyrchu cyd-destun Cymreig. Rydym o'r farn y dylai credoau anghrefyddol fod yn gydweidd â chredoau crefyddol h.y. rhaid iddynt gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlynid a phwysigrwydd er mwyn cael eu diogelu o dan Gofensiwn Hawliau Dynol Ewrop.

Gall Awdurdod Lleol fabwysiadu maes llafur cytûn yn seiliedig ar argymhelliad a wnaed gan ei Gynhadledd Meysydd Llafur Cytûn. Mae Pwyllgor A Cynhadledd Meysydd Llafur Cytûn yn grŵp sy'n cynrychioli enwadau Cristnogol a chrefyddau ac enwadau eraill sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal yn briodol. Cynigir y bydd Bil y Cwricwlwm ac Asesu yn cydnabod cynrychiolwyr grwpiau cred anghrefyddol (yn gydweidd â chredoau crefyddol) mewn perthynas â Phwyllgor A. Mae hyn hefyd yn gymwys i aelodaeth Pwyllgor A o'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ar lefel Awdurdodau Lleol. Mae'r cynnig hwn yn bwyt o eglurhad ac mae'n adlewyrchu'r cyngor a anfonwyd i Awdurdodau Lleol gan Ysgrifennydd Addysg y Cabinet ym mis Mai 2018.

Bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn caniatáu i ddysgwyr ystyried a datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth eang o gredoau a all adlewyrchu eu crefyddau neu eu credoau anghrefyddol personol eu hunain neu rai'r gymuned ehangach.

Gall rhieni barhau i anfon eu plant i ysgolion Catholig neu ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a gynhelir sy'n adlewyrchu eu credoau crefyddol personol. Bydd ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol â chymeriad crefyddol yn parhau i gyflwyno'r meysydd llafur enwadol a gall rhieni

dysgwyr sy'n mynychu ysgolion gwirfoddol a reolir barhau i ofyn i'w plentyn astudio'r maes llafur enwadol yn hytrach na'r maes llafur cytûn lleol os byddant am wneud hynny.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi y gall rhiant dynnu ei blentyn yn ôl o wersi Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw. Caiff y dull gweithredu hwn ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Caiff effeithiau'r darpariaethau hyn eu hystyried wrth i opsiynau polisi gael eu datblygu.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Ystyriwyd bod y cynigion mewn perthynas â'r meysydd llafur cytûn ac aelodaeth o Bwyllgor A yn cydnabod credoau anghrefyddol (yn gydweidd â chredoau crefyddol). Mae amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod y broses o ddylunio'r cwricwlwm hefyd wedi nodi pwysigrwydd cydnabod credoau anghrefyddol.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos â chydweithwyr o'r Eglwys yng Nghymru a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig er mwyn sicrhau y caiff cysylltiadau eu creu rhwng eu meysydd llafur enwadol a Maes Dysgu a Phrofiad ehangach y Dyniaethau, a'r cwricwlwm newydd yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd, ceir cydnabyddiaeth statudol o hawl ysgolion â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg rhyw a chydberthynas sy'n briodol ar gyfer ethos yr ysgol. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid gallu ysgolion â chymeriad crefyddol i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gydnaws â'u hethos.

Rhyw / Rhywedd

Mae'r cwricwlwm ei hun wedi'i ddylunio ar gyfer pob dysgwr ym mhob dosbarth. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth o wahaniaethau yng nghyrhaeddiad dysgwyr yn seiliedig ar rywedd. Er enghraifft, yn y Profion Darllen Cenedlaethol yn 2018, perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob grŵp blwyddyn. Yn y Profion Rhifedd Cenedlaethol yn 2018, perfformiodd bechgyn yn well na merched yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol (ac eithrio profion rhifedd gweithdrefnol Blwyddyn 8, a phrofion rhesymu rhifiadol Blynnyddoedd 3 a 7)⁶.

Bydd cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel pwnc statudol yn cael effeithiau cadarnhaol ar rywedd drwy godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc o gydberthnasau parchus, ymddygiad cadarnhaol ac amrywiaeth.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chymau lliniaru

Fel y nodwyd uchod, mae tystiolaeth o'r profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn tynnu sylw at wahanol ganlyniadau yn seiliedig ar rywedd. Yn ogystal, dengys Ystadegau Swyddogol wahaniaeth yn arholiadau Cyfnod Allweddol 4 yn seiliedig ar rywedd⁷. Mae'r trefniadau asesu newydd yn canolbwyntio mwy ar y dysgwr ac yn dileu'r gydberthynas rhwng asesiadau athrawon ac atebolrwydd. Mae'r dull gweithredu newydd ar gyfer profion cenedlaethol yn annog dull gweithredu mwy personol mewn perthynas ag asesu dysgwyr a'u cynnydd er mwyn eu helpu i ddatblygu fel dysgwyr uchelgeisiol, galluog.

Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)

Disgwylir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfeiriadedd rhywiol. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r MDPH Iechyd a Lles yn lleihau achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig (HBT) ac o ganlyniad yn gwella lles dysgwyr LGBTQI+. Byddant hefyd yn helpu i herio stereoteipiau rhywedd a rhywiol a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o gydberthnasau diogel, iach a chadarnhaol.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chymau lliniaru

Argymhellodd y Panel Arbenigol ar Ryw a Chydberthnasau y cwmpas ehangach ar gyfer Cydberthnasau a Rhywioldeb er mwyn sicrhau'r effaith gadarnhaol a nodir uchod. Ategir hyn gan y statws statudol y bwriedir ei roi i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm i bob dysgwr hyd at 16 oed. Yn ogystal, rhoddwyd cyllid i gonsortia rhanbarthol yn 2018/19 i helpu ysgolion i gynnig profiadau dysgu o ansawdd mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn cefnogi'r effeithiau a nodir uchod.

Priodas a phartneriaeth sifil

Bydd y cynigion yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth dysgwyr o briodas a phartneriaethau sifil. Yn benodol, bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r MDPH Iechyd a Lles yn helpu i herio stereoteipiau rhywedd a rhywiol a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o gydberthnasau diogel, iach a chadarnhaol.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Mae'r pedwar diben, fel y man cychwyn ar gyfer yr holl waith addysgu a dysgu, yn adlewyrchu'r angen i blant a phobl ifanc barchu cymdeithas amrywiol: *Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.*

Bydd statws statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm a'r sylw cyfartal yn y chwe MDPH (gan gynnwys Iechyd a Lles) yn sicrhau ansawdd y profiad dysgu yn y maes hwn ac yn codi proffil pynciau priodas, partneriaeth sifil a chydberthnasau iach.

Ar hyn o bryd, ceir cydnabyddiaeth statudol i hawl ysgolion â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg rhyw a chydberthynas sy'n briodol ar gyfer ethos yr ysgol. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid gallu ysgolion â chymeriad crefyddol i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n unol â'u hethos.

Cartrefi incwm isel

Mae'r cynigion yn ceisio cefnogi pob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth ac meant wedi'u dylunio i fod yn gymwys i bob dysgwr hyd at 16 oed. Mae Amcan Galluogol tri yn Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi'r ymrwymiad i sicrhau y caiff dysgwyr o gartrefi incwm isel gymorth i gyflawni eu potensial. Ategir y cwricwlwm gan weithgarwch polisi arall a nodir yn Cenhadaeth ein Cenedl, sy'n anelu at leihau'r bwch cyrhaeddiad a'r rhwystrau i ddysgwyr. Felly, awgrymir y bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr hyn.

Y rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithgareddau sy'n sicrhau y gellir cyflwyno cwricwlwm gweddnewidiol gan gynnwys dysgwyr o wahanol gefndiroedd.

Nododd y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r Adolygiad Annibynnol i'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru yr ymrwymiad i degwch a chynhwysiant fel un o gryfderau allweddol y system addysg yng Nghymru.

Mae'r pedwar diben yn fan cychwyn ar gyfer yr holl waith addysgu a dysgu, ac maent yn gymwys i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth ni waeth beth fo'i gefndir. Yn ogystal, mae dileu camau a chyfnodau allweddol er mwyn gwella cynnydd ac felly gynyddu'r potensial ar gyfer cyrhaeddiad uwch drwy leihau'r angen i drosglwyddo a'r symudiadau o ran dibenion a dulliau gweithredu ar adegau penodol yn ystod cyfnod disgyblion yn yr ysgol yn unol â Dyfodol Llwyddiannus ac yn ceisio sicrhau na chaiff dyheadau dysgwyr eu cyfyngu. Ategir hyn hefyd gan y cynnig y bydd dyletswydd ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar sut y gellir symud dysgwyr ymlaen ar hyd y continwwm ac sy'n galluogi'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i gyrraedd pob Cam Cynnydd, neu ragori arno, o fewn y cyfnod perthnasol o dair blynedd.

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenedloedd Unedig

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?
Protocol 1, Erthygl 2 – Yr hawl i addysg.	Mae'r cynigion yn cefnogi hawl plentyn neu berson ifanc i addysg.	Mae'r amcanion galluogol a nodir yn Cenhadaeth ei Cenedl yn ategu trefniadau'r cwricwlwm drwy sicrhau bod y gweithlu, trefniadau arweinyddiaeth a'r fframwaith gwerthuso yn helpu pob dysgwr i gyrraedd safonau uchel.	Dd/G

C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.wales):**

01/12/2018

2. **A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050, Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru yn llwyr. Y nod yw galluogi pob dysgwr yng Nghymru i allu defnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol. Y nod yw gweddnewid sut y caiff y Gymraeg ei haddysgu er mwyn sicrhau y gall o leiaf 70% o ddysgwyr siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol yn 2050.

Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen cydnabod a gwerthfawrogi'r broses o addysgu a dysgu Cymraeg fel rhan annatod o'r cwricwlwm i Gymru. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn cydnabod bod addysgu a dysgu Cymraeg yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac yn argymhell y dylai barhau'n orfodol i ddisgyblion ddysgu Cymraeg hyd at 16 oed. Bydd ffocws o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel dull cyfathrebu, yn arbennig cyfathrebu a dealltwriaeth lafar. Mae hyn yn cynnwys datblygu continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg at ddibenion cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, a chofnodi cyrhaeddiad.

Argymhellodd *Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (2013) y dylid datblygu un continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg, gyda disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai datblygu continwwm o'r fath yn golygu y byddai pob disgybl yng Nghymru yn dilyn yr un cwricwlwm ac yn cael ei asesu yn erbyn un fframwaith, gan felly ddileu'r term Cymraeg ail iaith a'r rhaglen astudio. Ystyriwyd yr adolygiad hwn gan yr Athro Donaldson fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer *Dyfodol Llwyddiannus* ac adlewyrchwyd yr argymhelliad y dylid datblygu un continwwm Cymraeg yn y MDPH Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Pennir disgwyliadau clir ar hyd un continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg ar ffurf gwahanol Ddeilliannau Cyflawniad ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y Deilliannau Cyflawniad yn nodi'r deilliannau gwahaniaethol y

disgwylir i ysgolion mewn categorïau ieithyddol gwahanol eu cyrraedd, a chânt eu diweddarau wrth i ysgolion wella dros gyfnod o amser.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg:

Mae'r cynigion canlynol yn cefnogi ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg:

- a) Un o nodweddion allweddol pedwar diben y cwricwlwm newydd yw datblygu plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog a all gyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffyrdd a lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r pedwar diben yn hanfodol er mwyn datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm mewn ysgolion a chaiff eu nodweddion allweddol eu hamlinellu mewn canllawiau statudol y bydd yn rhaid i ysgolion eu hystyried.
- b) Bydd Cymraeg yn statudol i bob dysgwr hyd at 16 oed a bydd yn rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Yn yr un modd â'r trefniadau presennol, caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog.
- c) Bydd y cynigion a nodir yn rhoi statws statudol cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y cwricwlwm yng Nghymru.
- d) Er mwyn i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus, mae angen cyfleoedd dilys iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi. Caiff ein disgwyliadau ar gyfer y rheini sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eu cynyddu'n raddol wrth i'r carfanau cyntaf ddysgu drwy'r cwricwlwm newydd ac wrth i'r gweithlu ddatblygu, er mwyn gwireddu'r uchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Felly, caiff ysgolion a lleoliadau eu hannog, lle y bo'n bosibl, i helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr ym mhob rhan o'r cwricwlwm a thrwy brofiadau a gweithgareddau allgyrsiol fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan.
- e) Datblygwyd y Deilliannau Canlyniad yn ystod pob Cam Cynnydd yn y MDPH Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu er mwyn cynnwys yr agweddau pwysicaf ar ddysgu; maent yn ystyried y ffyrdd y mae cynnydd plant yn seiliedig ar waith ymchwil a wnaed yn benodol er

mwyn llywio'r gwaith hwn ynghyd â dealltwriaeth ymarferwyr o'u profiad yn yr ystafell ddosbarth; ac yn cydnabod yr hyn y mae angen iddynt ei wybod a gallu ei wneud er mwyn symud ymlaen yn gadarn i'r cam nesaf. Dylai hyn wella'r broses o ddysgu Cymraeg sy'n rhan o'r MDPH.

- f) Mae angen deddfwriaeth er mwyn cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng dwy raglen astudio – Cymraeg a Chymraeg ail iaith. Bydd hyn yn golygu y gellir addysgu un continwwm dysgu Cymraeg ym mhob ysgol. Mae'r newidiadau i'r trefniadau asesu mewn ysgolion yn unol â'r nod o ganiatáu i ddysgwyr ddysgu mewn amgylchedd cefnogol.

Camau lliniaru

Mae camau gweithredu yn cael eu cymryd i sicrhau y caiff y cwricwlwm ei ddylunio a'i ddatblygu er mwyn sicrhau y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo. Fe'u nodir isod.

Datblygwyd y cwricwlwm drwy fodel cydlunio â rhwydwaith o Ysgolion Arloesi ledled Cymru. Drwy'r rhwydwaith hwn, caiff ysgolion cyfrwng Saesneg, dwyieithog a chyfrwng Cymraeg eu cynrychioli.

Datblygwyd y fframwaith cwricwlwm drafft yn ddwyieithog – gydag ymarferwyr arloesi cyfrwng Cymraeg yn cydweithio ochr yn ochr ag arloeswyr cyfrwng Saesneg. Rydym hefyd wedi manteisio ar arbenigedd golygyddion dwyieithog er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn gwneud synnwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Datblygwyd disgwyliadau interim ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn seiliedig ar fframwaith cynnydd neu gontinwwm cyffredin sy'n dechrau â dysgwyr newydd ac yn symud yn raddol tuag at ruglder. Caiff y Deilliannau Cyflawniad ar gyfer Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eu hadolygu bob 3-5 mlynedd wrth i'r carfanau cyntaf gael eu haddysgu drwy'r cwricwlwm newydd ac wrth i'r gweithlu ddatblygu. Caiff disgwyliadau eu cynyddu wrth i ni symud tuag at uchelgais 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

D. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Ymwreiddio bioamrywiaeth

1. Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?

Cynhwyswyd bioamrywiaeth wrth ddatblygu'r cwricwlwm ac mae wedi'i chynnwys yn y datganiadau Beth sy'n Bwysig ar gyfer y MDPH Gwyddoniaeth a Thechnoleg, y bydd statws statudol iddynt mewn canllawiau statudol.

2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?

Dd/G

3. Sut y mae eich cynnig yn gwella'r ddealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?

- Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn annog ymarferwyr i ddod yn ddylunwyr y cwricwlwm, gan addasu'r gofynion statudol i ystyried eu dysgwyr a'u cyd-destunau lleol.
- Mae datganiad Beth sy'n Bwysig drafft tri ym MDPH Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn nodi 'Mae bywyd yn amrywiol. Mae organebau yn rhyngweithio â'i gilydd a'u hamgylchedd, gan esblygu dros genedlaethau'. Y rhesymeg dros y datganiad hwn yw: *"mae'n bwysig deall sut y mae pobl fel organebau, sy'n cynnwys celloedd, meinweoedd ac organau, yn ffurfio rhan o'r byd byw. Gall ein penderfyniadau a'n gweithredoedd gael effaith sylweddol ar bethau byw a'u hamgylchedd, gan effeithio ar ecosystemau. Gall hyn gyfyngu ar fioamrywiaeth ac arwain at newidiadau i'r byd naturiol. O ganlyniad i esblygiad, ceir sawl gwahanol fath o organebau, a bu sawl gwahanol fath ohonynt, a gall y rhyngweithio rhyngddynt fod yn fuddiol neu'n niweidiol. Mae angen amodau ac adnoddau ar bob peth byw i dyfu, datblygu ac atgenhedlu'n llwyddiannus, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt gystadlu ag organebau eraill er mwyn gwneud hynny. Mae astudio bywyd yn helpu dysgwr i ddeall materion amgylcheddol ac iechydol yng Nghymru ac yn rhyngwladol, a sut y gellir ymdrin â nhw."*
- Bydd hyblygrwydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn golygu y bydd yr addysgu yn gallu pwysleisio bioamrywiaeth ac ecoleg o fewn amgylcheddau lleol y dysgwyr (MDPh

Gwyddoniaeth a Thechnoleg), ond gan hefyd eu helpu i edrych ar y byd ehangach (MDPh y Dyniaethau).

- Ceir cyfleoedd i godi/cynnwys materion bioamrywiaeth yn elfen profiadau'r cwricwlwm newydd, yn enwedig os ydynt yn berthnasol i'r ardal leol.
- Y pedwar diben yw sail y cwricwlwm a'r sylfeini ar gyfer yr addysgu a'r dysgu. Gall y nodweddion sy'n sail i'r pedwar diben gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac ecoleg. O dan ddinasyddion egwyddorol a gwybodus: mae plant a phobl ifanc yn dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac yn cydnabod eu bod yn dibynnu ar hynny; ac yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau gweithredu.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n camau monitro

4. A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?

Ni fydd y cynigion ym mil y cwricwlwm ac asesu yn cael effaith andwyol ar unrhyw rai o'r rhywogaethau na'r cynefinoedd holl bwysig a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5. A ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Mae'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm wedi defnyddio model cydlunio ag arbenigwyr, ymarferwyr a'r Haen Ganol yng Nghymru. Wrth ddatblygu'r MDPH Gwyddoniaeth a Thechnoleg, defnyddiwyd gwybodaeth amrywiaeth o arbenigwyr, gan gynnwys y Gymdeithas Fioleg Frenhinol, er mwyn sicrhau bod y MDPH yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r feddylfryd ddiweddaraf.

6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

Mae'r cynigion o blaid rhannu gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc drwy'r MDPH Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a'r pedwar diben, a gaiff eu hategu gan ddeddfwriaeth.

Llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth

7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

Mae'r trefniadau newydd yn rhoi'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol ddewis y cynnwys penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun penodol. Yn yr un modd, dylai'r hyblygrwydd hwn roi'r annibyniaeth i weithwyr proffesiynol ystyried materion a fydd yn diwallu anghenion eu dysgwyr, a all gynnwys gweithredu ar fioamrywiaeth.

8. A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?

Mae'r cynigion a amlinellwyd yn ategu'r broses o feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion bioamrywiaeth fel rhan o bedwar diben y cwricwlwm ac yn fwy penodol, fel rhan o'r MDPH Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r trefniant newydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ymarferwyr ac ysgolion gynnwys profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth os byddant am wneud hynny.

9. A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a champau gweithredu i'w cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Caiff y camau gweithredu a nodir uchod eu cofnodi fel rhan o ddogfennaeth y cwricwlwm. Caiff y ddogfennaeth hon ei chyhoeddi a'i defnyddio gan ymarferwyr er mwyn helpu i ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgolion.

CWESTIYNAU

Cwestiynau'n ymwneud â Chydraddoldeb

Cwestiwn ?: Er mwyn helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch ragweld unrhyw effaith benodol ar y rheini â nodweddion gwarchoddedig (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallai'r cynigion hyn nas cynhwyswyd yn yr asesiad effaith drafft effeithio'n benodol arnynt?

Cwestiwn ?: Pa effeithiau fyddai'n codi, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiynau'n ymwneud â Hawliau Plant

Cwestiwn ?: Er mwyn helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch ragweld unrhyw effaith benodol ar hawliau plant nas cynhwyswyd yn yr asesiad effaith drafft?

Cwestiwn ?: Pa effeithiau fyddai'n codi, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiynau'n ymwneud â'r Gymraeg (cwestiwn gosod na ellir eu newid)

Cwestiwn ?: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion deddfwriaethol arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai'n codi, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn ? – Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y cynigion deddfwriaethol arfaethedig er mwyn sicrhau'r canlynol:

- i) effeithiau cadarnhaol neu gynnydd yn yr effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Sylwadau ategol

Cwestiwn ? – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod isod i'w nodi.

